**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A THAI**
**11 IONAWR 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 11 Ionawr 2023.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Pam Banks, Gillian Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Dennis Hutchinson, Kevin Rush a Dale Selvester

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge (yn lle Linda Thew), Ted Palmer (yn lle Ray Hughes)

**HEFYD YN BRESENNOL**: Mynychodd y Cynghorwyr: Bill Crease, Dave Hughes ac Alan Marshall fel arsylwyr.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio); y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Gwydn gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol); Prif Swyddog (Tai ac Asedau) Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael; Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau; Rheolwr Gwasanaeth – Asedau Tai a Rheolwr Busnes

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol.

## 15. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel Tenant Cyngor.

## 16. COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 eu cymeradwyo fel cofnod cywir, a'u cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'r Cynghorydd Rosetta Dolphin.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 17. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Dywedodd yr Hwylusydd nad oedd newidiadau arfaethedig i'r eitemau a restrwyd ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. O gyfeirio at y camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod diwethaf, dywedodd yr Hwylusydd fod yr holl gamau gweithredu

wedi'u cyflawni ac y byddai'r argymhellion gan y Pwyllgor ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn i leihau'r nifer o eiddo gwag yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod nesaf ar 17 Ionawr 2022.

Cafodd yr argymhellion, fel y'i hamlinellwyd yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 18. INCWM RHENT TAI AC YMATEB LLES

Rhoddodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) ddiweddariad ar effaith ymateb y diwygiadau lles diweddaraf a'r lefelau presennol o ôl-ddyledion rhent tai yn 2022/23. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar yr effeithiau y mae diwygiadau lles yn parhau i'w cael ar breswylwyr a'r gwaith sy'n digwydd i'w lliniaru ac i gefnogi aelwydydd trwy'r argyfwng costau byw.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau ddiweddariad manwl ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran diwygio lles a lliniaru'r argyfwng costau byw, gan amlinellu ystod o fesurau a ddatblygwyd i helpu'r rhai yr effeithir gan gostau byw a'r cymorth a ddarperir i breswylwyr er mwyn helpu lliniaru'r effeithiau negyddol. Rhoddwyd diweddariad pellach ar yr holl feysydd canlynol, fel y nodir yn yr adroddiad:-

- Cymhorthdal Ystafell Sbâr
- Uchafswm Budd-daliadau
- Cynllun Cymorth Costau Byw
- Gofalwyr Di-dâl
- Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf
- Cymorth Lles
- Taliadau Dewisol Tai (DHP)

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael ddiweddariad manwl ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran ôl-ddyledion rhent, gan ddweud bod casglu rhent yn parhau'n heriol gyda'r cynnydd mewn costau byw a'r effaith ar allu rhai tenantiaid i dalu. Roedd llwyth gwaith y gwasanaeth Incwm Rhent wedi cynyddu, gyda chynnydd o 1.2% mewn achosion lle roedd angen cysylltu â thenantiaid, ac roedd y gwasanaeth yn parhau i gyfeirio tenantiaid trwy atgyfeiriadau at dimau arbenigol ar draws y Cyngor, gan gynnwys timau Cefnogi Pobl ac Ymateb Lles.

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael sylw at y lefel bresennol o ôl-ddyledion rhent a'r nifer o achosion o droi allan oherwydd ôl-

ddyledion rhent, fel y nodir yn yr adroddiad. Roedd yr her o gasglu rhent gan y tenantiaid sy'n derbyn credyd cynhwysol yn parhau'n risg i'r Cyngor, gyda mwy o denantiaid yn dechrau derbyn credyd cynhwysol a'r oedi a gafwyd wrth gyflwyno trefniant rheoli taliadau i rai tenantiaid, lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn tynnu taliadau rhent fel ffynhonnell.

Fel rhan o ymateb parhaus y Cyngor i liniaru'r effeithiau ar denantiaid a sicrhau sefydlogrwydd ariannol hirdymor y Cyfrif Refeniw Tai, yn 2021 cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad cynhwysfawr er mwyn asesu effeithlonrwydd y Cyngor o ran cefnogi tenantiaid. Roedd adolygiad Archwilio Cymru yn cydnabod y mesurau rhagweithiol mae'r Cyngor eisoes wedi eu cymryd i gefnogi tenantiaid a sefydlogi casgliadau rhent yn ystod cyfnod o newid nas gwelwyd ei debyg o'r blaen, yn enwedig wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ac effeithiau diweddar y pandemig.

Diolchodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin i'r swyddogion am yr adroddiad a chroesawodd mai dim ond 1 achos o droi allan a gafwyd, ac roedd o'r farn fod hyn wedi osgoi rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaeth digartrefedd. Cyfeiriodd at y tabl yn dangos band yr ôl-ddyledion ar gyfer 2022/23, gan wneud sylwadau ar y gwahanol lefelau o rent a dalwyd gan denantiaid, a gofynnodd a oedd modd nodi'r lefelau rhent o fewn y tabl mewn adroddiadau yn y dyfodol. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael i edrych a fyddai modd darparu hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Diolchodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson i swyddogion am yr adroddiad a oedd, yn ei farn ef, yn darparu'r wybodaeth gywir a chyfredol sydd ar gael. Mewn perthynas â'r duedd gynyddol mewn ôl-ddyledion rhent, gofynnodd a oedd y Rheolwr Gwasanaeth yn disgwyl i hyn ostwng erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael bod disgwyl i'r ôl-ddyledion rhent ostwng erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond cyfeiriodd at effeithiau'r pandemig a'r angen i sicrhau bod yr ôl-ddyledion yn parhau'n sefydlog.

Mynegodd y Cynghorydd Bernie Attridge bryderon ynglŷn â'r lefel bresennol o ôl-ddyledion rhent, nad oedd dan reolaeth yn ei farn ef, gan dynnu sylw at sefyllfaoedd blaenorol lle'r oedd Aelodau wedi mynegi pryder sylweddol wrth i ôl-ddyledion rhent gynyddu i £1 miliwn. Nid oedd yn credu y dylid dathlu 1 achos o droi allan, gan ei fod o'r farn y gellid darparu'r eiddo hynny i denantiaid sy'n fodlon talu eu rhent a byddai hyn yn lleihau'r ôl-ddyledion rhent ac o fudd i'r Cyfrif Refeniw Tai. Gofynnodd faint o swyddogion oedd yn rhan o'r Tîm Cynyddu Incwm, a sefydlwyd ar gyfer rhyddhau amser Swyddogion Tai. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael a'r Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau bod 7 swyddog yn y tîm casglu rhent a 5 swyddog yn y tîm diwygiadau lles cynyddu incwm.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan y Cynghorydd Attridge ynghylch cymharu ôl-ddyledion rhent â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol eraill, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael i edrych ar ba ddata meincnodi y gellir ei ddarparu mewn adroddiadau yn y dyfodol. Efallai y bydd yn rhaid i'r wybodaeth fod yn ddienw.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r nifer o achosion sy'n aros i fynd yn ôl i'r llys i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Gwnaeth y Cynghorydd Dave Evans sylw ar y 454 aelwyd yn Sir y Fflint a oedd yn derbyn gostyngiad yn eu taliadau budd-dal tai oherwydd y Dreth Ystafelloedd Gwely, a gofynnodd faint o'r aelwydydd hyn oedd mewn ôl-ddyledion rhent. Gofynnodd hefyd faint o'r tenantiaid hyn oedd wedi'u troi allan ac yna'u hail-gartrefu gan y Cyngor ac wedi mynd i ôl-ddyledion eto. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau ddarparu gwybodaeth ar gais ynglŷn â thenantiaid a effeithiwyd gan y Dreth Ystafelloedd Gwely yn dilyn y cyfarfod. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael nad oedd yn ymwybodol o denantiaid gyda'r Cyngor a aeth i ôl-ddyledion eto ar ôl cael eu troi allan, ond gellid adolygu'r data hwn.

Gwnaeth y Cynghorydd Dale Selvester sylw am y newidiadau ynghylch sut mae tenantiaid yn gwneud taliadau dŵr a charthffosiaeth a gofynnodd a oedd swyddogion yn credu y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar ôl-ddyledion rhent, wrth i denantiaid dalu ffioedd yn uniongyrchol i Dŵr Cymru o fis Ebrill 2023. Gofynnodd hefyd a fyddai tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan y Dreth Ystafelloedd Gwely yn cael eu hannog i symud i eiddo llai. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael mai nifer fechan iawn o Awdurdodau Lleol ar draws Cymru sy'n casglu cyfraddau dŵr ar ran Dŵr Cymru. Roedd yn credu y byddai'r newidiadau'n cael effaith gadarnhaol ar y Cyngor ac y byddai'n gynnig gwell i denantiaid. Dywedodd hefyd fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau y rhoddir gwybod i Dŵr Cymru am eiddo gwag. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau fod tenantiaid yn cael eu hannog i symud i eiddo llai os ydyn nhw'n cael eu heffeithio gan y Dreth Ystafelloedd Gwely, ond yn anffodus roedd prinder eiddo llai ar gael ar draws Sir y Fflint.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd modd dangos canran yr ôl-ddyledion sy'n ymwneud â thaliadau dŵr mewn adroddiadau yn y dyfodol. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael i edrych a fyddai'n bosibl dangos pa rai oedd yn ôl-ddyledion rhent a'r canran o daliadau dŵr gweddilliol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Tai ac Adfywio i'r swyddogion am yr adroddiad ac i Aelodau'r Pwyllgor am eu sylwadau a'u cwestiynau. Cyfeiriodd at y wybodaeth a dderbyniodd y Cyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â thenantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac awgrymodd efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cynorthwyo'r Cyngor â chael y wybodaeth hon yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhellion, fel y'i hamlinellwyd yn yr adroddiad, yn ogystal â'r argymhelliad ychwanegol canlynol, eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Dave Evans:-

- Bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau i geisio eu cytundeb i rannu gwybodaeth â'r Awdurdod Lleol ynghylch pa denantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, fel bod modd darparu cefnogaeth/cymorth priodol i unrhyw denantiaid sy'n mynd i ôl-ddyledion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi sefyllfa ddiweddaraf casgliadau ôl-ddyledion rhent yn 2022/23;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith parhaus i reoli'r effaith mae diwygiadau lles yn ei gael ac a fydd yn parhau i'w gael ar rai o'r tenantiaid mwyaf diamddiffyn, yn ogystal â chyflwyno cefnogaeth trwy fesurau cefnogi Llywodraeth Cymru er mwyn lliniaru'r argyfwng costau byw; a

(C) Bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Adran Gwaith a Phensiynau i geisio eu cytundeb i rannu gwybodaeth â'r Awdurdod Lleol ynghylch pa denantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, fel bod modd darparu cefnogaeth/cymorth priodol i unrhyw denantiaid sy'n mynd i ôl-ddyledion.

## 19. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad monitro i adolygu'r cynnydd canol blwyddyn yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2022/23. Roedd yr adroddiad sefyllfa derfynol ar gyfer Cynllun y Cyngor 2022/23 yn dangos bod 59% o weithgareddau'n gwneud cynnydd da. Roedd 70% o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori eu targedau, roedd 9% yn cael eu monitro'n agos ac nid oedd 21% yn cyrraedd y targed ar hyn o bryd.

Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar eithriadau ac yn canolbwyntio ar y meysydd perfformiad nad oedd yn cyflawni eu targedau ar hyn o bryd. Cafodd y dangosyddion perfformiad sy'n dangos statws COG coch ar gyfer perfformiad presennol yn erbyn targed oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor, eu nodi yn yr adroddiad.

Gwnaeth y Cynghorydd Bernie Attridge sylw ar y nifer o addasiadau mawr gorfodol ar gyfer pobl anabl a'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gymerwyd i'w cwblhau a gofynnodd am eglurhad am yr oedi â'r ceisiadau cynllunio am waith mawr. Gofynnodd hefyd a oedd oedi gydag ymweliadau Therapyddion Galwedigaethol. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai, Lles a Chymunedau bod oedi â chynllunio oherwydd yr ôl-groniad a chymhlethdodau gyda rhai addasiadau a oedd angen eu gwneud ar gyfer pobl anabl. Eglurodd hefyd fod fframwaith newydd ar y gweill, a fyddai'n galluogi'r Cyngor i ddefnyddio cyflenwyr lleol a chynyddu'r nifer o ddyfynbrisiau. O ran Therapyddion Galwedigaethol, eglurodd bod nifer o swyddi gwag sydd angen eu llenwi o fewn y gwasanaeth a'i fod yn faes anodd recriwtio ar ei gyfer ar hyn o bryd. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gysylltu â Phrifysgolion er mwyn gweld a fyddent yn gallu cynorthwyo â recriwtio.

Cafodd yr argymhellion, fel y'i hamlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Bernie Attridge a'u heilio gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau canol blwyddyn yng Nghynllun y Cyngor 2022/23;

(b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo a chefnogi perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion perfformiad canol blwyddyn Cynllun y Cyngor 2022/23; a

(c) Bod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni.

**20. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11:32 am)

…………………………………………
**Cadeirydd**